

# Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

## Welsh Language Advisory Panel

1 o'r gloch Dydd Gwener, 18 Mawrth 2016  
Ystafell Bwyllgor yr Uned Gwasanaethau Democrataidd,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin

### COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Mair Stephens	MS	Aelod Bwrdd Gweithredol (Cadeirydd)
Cyng. Cefin Campbell	CC	Plaid Cymru (Is-gadeirydd)
Cyng. Ryan Bartlett	RT	Llafur
Cyng. Deryk Cundy	DC	Llafur
Cyng. Peter Hughes Griffiths	PHG	Plaid Cymru
Cyng. Gwyn Hopkins	GH	Plaid Cymru
Cyng. Joseph Davies	JD	Annibynnol
<b>Swyddogion</b>		
Gwyneth Ayers	GA	Rheolwr Polisi a Phartneriaeth
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg
Bethan James	BJ	Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg
Jamie Davies	JD	Prentis Modern

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	<p><b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b></p> <p>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Mair Stephens ac yn arbennig i Jamie Davies, prentis oedd yno i gysgod i'r Cyng. Mair.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Calum Higgins, Cynghorydd Hugh Richards, Cynghorydd Edward Thomas a Wendy Walters.</p>	
2.	<p><b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf</b></p> <p>Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p> <p>Gofynnwyd a oedd unrhyw gynnydd wedi bod o ran gweithio gyda Chynghorau Lleol o ran y TAN 20. Nodwyd mai awgrym oedd hwn i roi yn yr ymateb i'r</p>	

	<p>ymgyngoriad.</p> <p>Gofynnwyd am wybodaeth o ran y cyfarfod a gynhaliwyd rhwng y Cyngorwyr â chyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg a Meri Huws a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd cwpwl o brif themâu yn codi yn ystod y diwrnod; sef yr amserlen, systemau Technoleg Gwybodaeth a'r gefnogaeth yr oedd Bwrdd yr iaith Gymraeg yn arfer darparu i sefydliadau. Mae'r Llywodraeth yn ystyried hyn.</p> <p>Nodwyd bod y Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth y Comisiynydd i ddweud bod cais y Cyngor i herio'r Safonau yn ddilys. Ymddengys fod yna fwy o gamau i'r broses fodd bynnag ac nid oes penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud am yr apêl eto.</p>	
<p><b>3.</b></p>	<p><b>Strategaeth Hybu</b></p> <p>Eglurodd MJ bod angen i'r Cyngor baratoi Strategaeth Hybu er mwyn cydymffurfio â Safon 145 a Safon 146.</p> <p><b>Cefndir:</b> Cafwyd cais gan y Fforwm Sirol am dafluniad 5 mlynedd o argymhellion y Panel fel sylfaen i'r Strategaeth Hybu, a chytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Panel i ddefnyddio cynlluniau gwaith y cyrff datblygu iaith yn y sir fel sail. Cyflwynodd MJ ddogfen drafod oedd yn ymdrech i grynhoi ymdrechion presennol y Cyngor a'r partneriaid, i adnabod bylchau ac i osod cyfeiriad unedig ar gyfer Strategaeth Hybu.</p> <p><b>Crynodeb:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Crynodeb o'r sefyllfa ar hyn o bryd, y gwaith a wnaed ac a wneir.</li> <li>2) Sail ystadegol sy'n cynnwys dadansoddiad ystadegau 'Yr iaith Gymraeg yn Sir Gâr' ac adroddiad Gweithgor y Cyfrifiad 'Y Gymraeg yn Sir Gar'</li> <li>3) Amcanion: <ol style="list-style-type: none"> <li>i. Cynyddu niferoedd sy'n <b>caffael sgiliau sylfaenol</b> yn y Gymraeg;</li> <li>ii. Cynyddu niferoedd sy'n <b>caffael sgiliau pellach a magu hyder</b>;</li> <li>iii. <b>Cynyddu defnydd</b> y Gymraeg (ac felly rhuglder a hyder ieithyddol) yn gymunedol, yn y gweithle, o amgylch yr ysgol, mewn gwyliau, mewn busnesau, wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus;</li> <li>iv. Cynyddu niferoedd sy'n medru'r Gymraeg a chynyddu defnydd y Gymraeg mewn <b>ardaloedd daearyddol</b> penodol o fewn y sir, naill ai am eu bod yn cynnig potensial i ddatblygu neu yn achosi pryder yn ieithyddol.</li> </ol> </li> <li>4) Sgerbwd o dabl o weithgaredd datblygu iaith bresennol y sir gan y Cyngor a'i phartneriaid.</li> <li>5) Nodiadau ar fyrdd o fesur effaith sef: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Niferoedd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd uchod, fesul ardal</li> </ul> </li> </ol>	

- ddaearyddol a fesul cymuned o ddiddordeb (maes),
- Faint o siaradwyr Cymraeg fesul ardal o'r Adroddiad 'Cyfrifiad 2011: y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin'
  - Cyfrifiad 2021
  - Ystadegau'r bwllch llafar-llythrennedd o'r Adroddiad 'Cyfrifiad 2011: y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin'
  - Faint o ddefnydd a rhuglder o'r 'Arolwg Defnydd', fesul pa mor dda, pa mor aml, ble a gyda phwy,
  - Niferoedd addysg: caffael sgiliau – addysg Gymraeg yn y cyfnod Sylfaen,
  - Niferoedd addysg: trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd
  - Niferoedd addysg: rhwng cyfnodau allweddol
  - Ymchwil newydd i fesur effaith prosiectau penodol (fel y prosiect daearyddol o'r Fforwm Sirol)
  - Arolwg Cenedlaethol Cymru (am gymhariaeth flynyddol).

**Sylwadau:** Cyfeiriwyd at y ffaith bod angen mesur ble ry'n ni nawr a bod angen i hwnnw fod yn gywir.

Codwyd pryderon am fwriad y Comisiynydd yn rhoi'r holl gyfrifoldeb ar y Cyngor Sir am iechyd yr iaith yn y sir. Awgrymodd MJ mai gosod y ddyletswydd ar y cyngor i arwain, gosod cyfeiriad a hwyluso y mae Safon 145 yn ei wneud a'i fod yn bwysig i sicrhau fod y Strategaeth yn gosod targedau realistig er mwyn sicrhau nad ydy'r Cyngor yn rhwym o 'fethu' lle bo canrannau siaradwyr Cymraeg yn y sir dan sylw.

Cafwyd sylw bod y drafft hwn yn sylfaen gref i weithio arni.

Nododd MS fod angen i'r Strategaeth Hybu gynnwys cyrff cyhoeddus eraill o fewn y sir gan gynnwys sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Public Services Board).

Cyfeiriwyd bod angen nodi canolfan 'Y Lle' yn ogystal â'r Atom.

Awgrymwyd bod angen pwysleisio mwy ar y sail sydd yn bodoli yn barod o ganlyniad i waith Gweithgor y Cyfrifiad a'r argymhellion o 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'.

Cytunwyd ar y pedwar amcan ond nodwyd bod cynllunwyr iaith yn cydnabod bod trosglwyddiad iaith yn y cartref ac addysg mewn ysgolion yn hollbwysig.

Awgrymwyd nad oes digon o gydgyllunio rhwng y mudiadau iaith a bod angen mwy o waith cydlynu gyda ffocws ar ein blaenoriaethau yn yr ardaloedd sydd wedi cael eu penderfynu.

Cytunwyd y dylid ychwanegu pumed amcan, sef 'Marchnata a hyrwyddo'r iaith Gymraeg'. Byddai'r amcan yn cynnwys hyrwyddo addysg ddwyieithog ac yn annog mewnfudwyr i ddysgu'r Gymraeg. Cyfeiriwyd hefyd at y Siartr iaith fel cynllun i hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ymhlith plant oed cynradd.

Nodwyd bod hi'n anodd cynnwys pawb wrth restru mudiadau gan gynnwys

	<p>Eisteddfodau, Cylchoedd Cinio, Sefydliad y Merched ac ati.</p> <p>Awgrymwyd y dylid cyfeirio at y cyd-destun cenedlaethol a 'Bwrw Mlaen' yn benodol.</p> <p>Dylid cynnwys Cylchoedd Meithrin a'r Meithrinfeydd preifat.</p> <p>Eglurwyd y byddai modd i sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Fforwm Sirol i gyfrannu at ddarparu gwybodaeth i'r tablau, gan gynnwys prosiectau lleol.</p> <p>Awgrymwyd cynnwys mwy o gyfeiriad at 'Yr Egin' yn y Strategaeth.</p> <p>Yn dilyn ymholiad eglurwyd bod y Mentrau wedi dewis yr ardaloedd daearyddol blaenoriaeth yn ôl ystadegau'r Cyfrifiad.</p> <p>Cyfeiriwyd at ddiffyg darpariaeth ar gyfer gweithgaredd ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg mewn rhannau o'r sir.</p> <p>Soniwyd mai efallai targed 5 mlynedd y Strategaeth byddai lleihau'r dirywiad yn hytrach na chynyddu niferoedd o siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Awgrymwyd cyfeirio at declyn 'Gweithredu'n Lleol' fel cyfraniad posib i fesur hyfywedd iaith.</p> <p>Cytunwyd hefyd i gyfeirio at y Cynllun Datblygu Lleol.</p>	
<b>4.</b>	<p><b>Polisi defnydd mewnol</b></p> <p>Nodwyd bod y Fforwm Staff wedi trafod y polisi mewnol a'u bod wedi awgrymu y dylid nodi egwyddorion y Cyngor a nodi cyfeiriad a disgwyliadau'r Cyngor.</p> <p>Nodwyd y bydd y tîm polisi yn gweithio ar bolisi cychwynnol a byddwn ni'n adeiladu arno dros amser.</p> <p>Cytunwyd i drafod y polisi yng nghyfarfod nesaf y Panel.</p>	Tîm Polisi
<b>5.</b>	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <p>Bydd yr awdit Sgiliau Iaith yn cael ei gylchredeg wythnos nesaf.</p> <p>Codwyd bod angen trafod amserlen i gynllun gweithredu argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad. Gellid mynd dros yr amserlen yn y cyfarfod nesaf.</p>	Tîm Polisi
<b>6.</b>	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b></p> <p>Cytunwyd i anfon dyddiad y cyfarfod nesaf at aelodau'r Panel cyn gynted â phosib.</p>	Tîm Polisi